# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 21 Ionawr 2014** |
| Amser: | **09:02 - 10:23** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_21_01_2014&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Steve George (Clerc)**<br>**Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

**TRAWSGRIFIAD**

View the meeting transcript.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon
Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Pwyllgor. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1P-04-524 Rheolaeth Gynllunio a'r Gymraeg

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog Tai ac Adfywio;

- Comisiynydd y Gymraeg, i ofyn am ei barn am y ddeiseb; a
- Chadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i dynnu sylw at y ddeiseb cyn cyflwyno Bil Cynllunio (Cymru) yn fuan.

**2.2P-04-525 Ariannu Gwobrau CREST yng Nghymru**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i:

- ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ofyn am ei barn am y ddeiseb; ac
- anfon copi at y Gweinidog Addysg.

**2.3P-04-526 Gwnewch Senedd TV yn hygyrch i bobl fyddar**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Llywydd, fel Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad, i ofyn am ei barn am y ddeiseb; a
- gwirio cofnod y trafodion ar gyfer Cyfarfod Llawn diweddar er mwyn cyfeirio at drafodaeth a gynhaliwyd gan yr Aelodau ar faterion tebyg sy'n ymwneud â'r ddeiseb.

**2.4P-04-527 Ymgyrch i gael Cronfa Cyffuriau Canser Arbennig yng Nghymru**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain (ABPI)

i ofyn am eu barn am y ddeiseb.

**2.5P-04-528 Addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob ysgol gynradd yng Nghymru**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
- Y Prif Weinidog; ac
- Undebau Athrawon yng Nghymru.

i ofyn am eu barn am y ddeiseb.

**2.6P-04-529 Ombwdsmon Asiantaethau Gosod Tai ar gyfer Cymru**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Tai ac Adfywio i ofyn am ei farn ar y ddeiseb.

**2.7P-04-530 Labelu Dwyieithog**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at:

- Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd; a'r

- Prif Weinidog

i ofyn am eu barn am y ddeiseb.

### 2.8P-04-531 Ailenwi Maes Awyr Caerdydd ar ôl Eicon o Gymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ofyn am ei barn ar y ddeiseb.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1P-04-373 Parthau Gwaharddedig o Amgylch Ysgolion ar gyfer Faniau Symudol sy'n Gwerthu Bwyd Poeth

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i:

- aros am y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau, a addawyd gan y Gweinidog erbyn diwedd mis Ionawr 2014;
- ofyn am farn y deisebydd ar ohebiaeth y Gweinidog; a
- rhoi gwybod i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am y ddeiseb.

### 3.2P-04-506 Pasys bws am ddim / teithio rhatach i’r rhai sy’n hawlio budd-daliadau, myfyrwyr a phobl o dan 18 oed

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ofyn i'r Gweinidog am unrhyw ymateb pellach i sylwadau'r deisebydd, yn benodol, o ran y grŵp oedran targed ar gyfer pasys, o gofio newidiadau i'r oedran cymhwysedd pensiwn.

### 3.3P-04-447 Ymgyrch am Gerflun o Harri’r Seithfed ym Mhenfro

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i:

- dynnu sylw Aelodau Rhanbarthol ac Etholaethol y Cynulliad yn ardal Penfro at y ddeiseb; a
- gofyn am bapur ymchwil ar ba sefydliadau a fyddai'r rhai gorau i gyfeirio'r ddeiseb atynt mewn perthynas â'r materion ariannu.

### 3.4P-04-456 Dementia - Gallai hyn ddigwydd i chi

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn i'r Gweinidog am y wybodaeth ddiweddaraf o ran cynnydd yr adolygiad o Fframwaith Gofal Iechyd Parhaus y GIG; a
- phan geir yr ymateb hwnnw, ystyried tynnu sylw'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y ddeiseb.

### 3.5P-04-494 Rhaid sicrhau bod prostadectomi laparosgopig gyda chymorth robotig ar gael i ddynion yng Nghymru yn awr

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn am farn ynghylch a yw'r arian a ddarperir drwy'r Gronfa Technolegau Iechyd yn Ysbyty Athrofaol Cymru yn sicrhau y bydd triniaeth gyfartal ar gael i bobl ar draws Cymru;
- ofyn am farn y deisebydd ar ohebiaeth y Gweinidog; a
- gofyn am ymateb gan y byrddau iechyd nad ydynt wedi ymateb i lythyr gwreiddiol y Pwyllgor eto.

**3.6P-04-520 Parthed Canslo pob Llawdriniaeth Orthopedig Ddewisol gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda dros y Gaeaf 2013/14**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i aros i glywed beth yw barn y deisebydd ynghylch a yw hi'n fodlon â'r esboniadau a'r camau a ddarparwyd gan y Gweinidog ac, yn benodol, gan y Bwrdd Iechyd.

**3.7P-04-481 Cau'r bwlch ar gyfer disgyblion byddar yng Nghymru**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i:

- ofyn i'r deisebydd nodi maes penodol yr hoffai i'r Pwyllgor gyflawni gwaith arno; ac
- anfon copi, er gwybodaeth at Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Faterion Pobl Fyddar.

**3.8P-04-516 I wneud gwyddor gwleidyddiaeth yn rhan orfodol o addysg**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i:

- anfon sylwadau'r deisebydd ymlaen at y Gweinidog, a gofyn a oes ganddo ragor o sylwadau ar y pwyntiau a wnaed; a
- thynnu sylw Tîm Addysg y Cynulliad at y ddeiseb.

**3.9P-04-517 Atal Llywodraeth Cymru rhag cyflwyno system i fonitro plant sy'n dewis cael eu haddysgu gartref o dan wedd diogelu**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros i glywed barn y deisebydd am ymateb y Gweinidog.

**3.10 P-04-522 Asbestos mewn Ysgolion**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i:

- ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau, i rannu gohebiaeth y deisebydd ac i ofyn a yw ei farn ef wedi newid yng ngoleuni'r ohebiaeth hon; a
- gofyn am friff cyfreithiol i roi eglurhad ynghylch o fewn cylch gwaith pwy y daw'r mater hwn.

**3.11 P-04-500 Galw am Reoleiddio Sefydliadau Lles Anifeiliaid yng Nghymru**

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i aros am sylwadau'r deisebydd ar ymateb y Gweinidog, yn benodol, ei gais am unrhyw dystiolaeth neu ystadegau.

**3.12 P-04-511 Cefnogi'r safonau cyfranogaeth plant a phobl Ifanc**

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at:

- y Gweinidog i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf, ac am ei farn am sylwadau pellach y deisebydd; ac
- Achub y Plant i ofyn am eu barn ar y ddeiseb.

### 3.13 P-04-482 Hysbysfyrddau cyhoeddus ar draws Cymru i roi gwybod i'r cyhoedd pwy yw eu cynrychiolwyr gwleidyddol (Saesneg yn unig)

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb.

### 3.14 P-04-519 Diddymu Taliadau Comisiwn wrth werthu Cartrefi mewn Parciau

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y ddeiseb a chytunodd i ofyn i'r Gweinidog am ei farn ar sylwadau pellach y deisebydd, yn benodol, y pwynt fod y trefniadau presennol yn rhoi cymhelliad gwrthnysig i berchnogion orfodi pobl sy'n defnyddio'r cartrefi i werthu.

## 4 P-03-262 Academi Heddwch Cymru

Nododd yr Aelodau ymateb y Prif Weinidog i adroddiad y Pwyllgor ar Academi Heddwch Cymru.

Cynhelir dadl ar yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Chwefror 2014.